Hysbysiad Preifatrwydd - Addysg – TAPPAS

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn ymdrin â sut y bydd Cyngor Sir Penfro (fel rheolydd data) yn casglu, defnyddio a rhannu eich data personol at ddibenion TAPPAS (Tîm o Amgylch y Disgybl, y Rhiant a'r Lleoliad).

Mae TAPPAS yn grŵp o weithwyr proffesiynol sy'n cefnogi ysgolion a theuluoedd gyda lles ac anghenion dysgu ychwanegol plant a phobl ifanc, gan ddarparu cymorth a chefnogaeth gynnar ymarferol.

Mae TAPPAS yn gyfarfodydd tymhorol a fynychir gan amrywiaeth o weithwyr proffesiynol amlddisgyblaethol, gan gynnwys o'r awdurdod lleol, y GIG, a sefydliadau eraill sy'n cefnogi plant a phobl ifanc.

Egwyddorion allweddol TAPPAS:

Cefnogi ysgolion a theuluoedd i adnabod disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gynnar a gweithredu ymyriadau ac olrhain disgyblion.

Pam y mae angen eich gwybodaeth arnom (diben y prosesu)

Rydym yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol er mwyn i ni allu pennu cymorth ac anghenion dysgu ychwanegol y plentyn neu'r person ifanc a enwir.

Caiff yr wybodaeth rydych yn ei darparu ei phrosesu yn unol â Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data, Deddf Diogelu Data 2018 a Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru).

Byddwn hefyd yn gwneud unrhyw ddatgeliadau sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith ac efallai y byddwn hefyd yn rhannu'r wybodaeth hon â chyrff eraill sy'n gyfrifol am ganfod/atal twyll/trosedd neu archwilio/gweinyddu arian cyhoeddus i sicrhau bod arian yn cael ei dargedu a'i wario yn y ffordd fwyaf priodol a chosteffeithiol. Er mwyn cyflawni hyn, caiff gwybodaeth ei rhannu â'n Gwasanaeth Archwilio yng Nghyngor Sir Penfro ac ag Archwilydd Cyffredinol Cymru: Polisi Preifatrwydd a Chwcis Archwilio Cymru (yn agor mewn tab newydd)).

Ni fyddwn yn datgelu unrhyw wybodaeth i drydydd partïon at ddibenion marchnata.

Bydd eich data yn ddiogel ac yn gyfrinachol bob amser a byddwn ond yn casglu'r wybodaeth bersonol y mae ei hangen arnom er mwyn darparu'r gwasanaeth hwn i chi.

Pa ddata personol sy'n cael eu casglu?

Ar gyfer y gwasanaeth hwn, rydym yn cael gwybodaeth yn uniongyrchol gan yr ysgol neu leoliad addysgol (gan gynnwys darparwyr ôl-16) y mae'r plentyn neu berson ifanc yn ei fynychu:

- Dyddiad geni'r plentyn neu berson ifanc
- A yw plentyn yn derbyn gofal
- Presenoldeb yn yr ysgol a chyrhaeddiad addysgol
- Gwybodaeth am iechyd, galluoedd a sgiliau'r plentyn neu berson ifanc
- Bydd tîm Troseddau Ieuenctid y cyngor hefyd yn rhoi gwybodaeth gyfyngedig am droseddau/euogfarnau, lle mae hyn yn berthnasol ac yn angenrheidiol i hysbysu'r awdurdod lleol os oes ganddynt ddyletswydd i benderfynu a oes gan y plentyn neu berson ifanc ADY (Anghenion Dysgu Ychwanegol).

Mae'n bosibl y byddwn yn cael gwybodaeth feddygol gan fyrddau iechyd lleol y GIG fel rhan o'r gwasanaeth hwn.

Efallai y byddwn hefyd yn gofyn i weithwyr proffesiynol y Gwasanaethau Plant a'r Gwasanaeth Cynhwysiant am gyngor, gan gynnwys eu cysylltiad â'r plentyn neu berson ifanc.

Beth yw ein sail gyfreithiol ar gyfer prosesu eich data personol?

Mae Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR y DU) yn ei gwneud yn ofynnol bod amodau penodol yn cael eu bodloni i sicrhau bod eich data personol yn cael eu prosesu mewn ffordd gyfreithlon. Dyma'r amodau perthnasol hyn isod**:**

- Erthygl 6(1)(e) Tasg gyhoeddus: mae'r prosesu yn angenrheidiol er mwyn i ni gyflawni tasg er budd y cyhoedd neu ar gyfer ein swyddogaethau swyddogol, ac mae gan y dasg neu'r swyddogaeth sail gyfreithiol glir. Mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol bennu ADY a darpariaeth ddysgu ychwanegol pan dynnir eu sylw at y ffaith fod gan blentyn neu unigolyn ifanc, neu ei bod yn bosibl fod gan blentyn neu unigolyn ifanc, anghenion dysgu ychwanegol.

Mae rhai mathau o ddata personol yn fwy sensitif nag eraill ac mae angen lefel uwch o ddiogelu ar eu cyfer. Dosberthir y data hyn fel 'data categori arbennig' a gallai gynnwys gwybodaeth am eich tarddiad hiliol neu ethnig, barn wleidyddol, credoau crefyddol neu athronyddol, aelodaeth undeb llafur, prosesu data genetig neu fiometrig, ac iechyd a bywyd rhywiol, a chyfeiriadedd rhywiol.

Rydym yn prosesu'r math hyn o ddata categori arbennig gan ei fod yn angenrheidiol am y rhesymau canlynol:

- Erthygl 9 (2)(g) O fudd sylweddol i'r cyhoedd. (Yr amod perthnasol yn Neddf Diogelu Data 2018 yw – Atodlen 1 Rhan 2:Dibenion statudol a llywodraethol)

Yr amod yn Atodlen 1 ar gyfer prosesu data troseddau troseddol yw: Dibenion statudol a llywodraethol.

Â phwy byddwn yn rhannu eich gwybodaeth?

Efallai y bydd angen i ni rannu eich data personol ag adrannau mewnol, sefydliadau eraill a thrydydd partïon, gan gynnwys y canlynol:

- Person ifanc
- Rhiant/gwarcheidwad
- Rheolwyr cynhwysiant, gan gynnwys y tîm Cymorth Cynnar (mewnol)
- Y Gwasanaeth Cefnogi Ymddygiad (mewnol)
- Gweithwyr allgymorth (mewnol)
- Gwasanaeth Synhwyraidd a Saesneg fel Iaith Ychwanegol (mewnol)
- Gwasanaeth Seicoleg Addysgol (mewnol)
- Athrawon Ymgynghorol Anghenion Dysgu Ychwanegol (mewnol)
- Swyddogion cyswllt â theuluoedd
- Penaethiaid
- Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol (CADY) – gall hyn fod o ysgolion nad yw'r plentyn neu unigolyn ifanc yn eu mynychu.
- Bwrdd (byrddau) iechyd lleol
- Gwasanaeth Blynyddoedd Cynnar, Chwarae a Gofal Plant
- Panel Cynllun Datblygu Unigol yr awdurdod lleol a Phanel Lleoliadau Arbenigol
- Sefydliadau addysg bellach a darparwyr ôl-16
- Y Gwasanaeth Ieuenctid a darparwyr gwasanaethau eraill yr awdurdod lleol a gomisiynir

Rydym yn defnyddio proseswyr data (trydydd partïon) sy'n darparu gwasanaethau i ni o ran darpariaeth TG ac adfer ar ôl trychineb. Mae gennym gontractau ar waith gyda'r proseswyr data hyn ac ni allant wneud unrhyw beth â'ch gwybodaeth bersonol oni bai ein bod wedi eu cyfarwyddo nhw i wneud hynny. Byddant yn cadw eich data yn ddiogel a bydd eich gwybodaeth bersonol yn cael ei rhannu yn unol â GDPR

y DU yn unig. Pan fydd angen trosglwyddo'ch gwybodaeth bersonol y tu allan i'r DU fel rhan o'r contractau hyn, dim ond yn unol â GDPR y DU y gwneir hyn.

Mae gan Gyngor Sir Penfro ddyletswydd i ddiogelu'r cyllid cyhoeddus y mae'n ei reoli. Felly, gallai'r wybodaeth rydych wedi'i darparu i ni gael ei defnyddio er mwyn atal a chanfod twyll ac at ddibenion archwilio yn fewnol ac yn allanol.

Caiff yr wybodaeth bersonol rydym wedi'i chasglu gennych chi ei rhannu ag asiantaethau atal twyll, a fydd yn ei defnyddio i atal twyll a gwyngalchu arian ac er mwyn dilysu eich hunaniaeth. Os caiff twyll ei ganfod, gallai gwasanaethau penodol, cyllid neu gyflogaeth gael eu gwrthod i chi. Mae rhagor o fanylion am sut y byddwn ni a'r asiantaethau atal twyll hyn yn defnyddio'ch gwybodaeth, a'ch hawliau diogelu data, ar gael drwy fynd i CIFAS (yn agor mewn tab newydd).

Pa mor hir byddwn yn cadw eich gwybodaeth?

Bydd Cyngor Sir Penfro ond yn cadw eich gwybodaeth cyhyd ag sydd ei hangen.Byddwn yn cadw'r wybodaeth a ddarparwyd i ni am 25 mlynedd ar ôl dyddiad geni eich plentyn oni bai ei bod yn destun camau cyfreithiol; bydd eich gwybodaeth chi a gwybodaeth eich plentyn yn cael eu dinistrio'n ddiogel ar ôl y cyfnod hwn.

Eich hawliau

O dan Reoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data a Deddf Diogelu Data 2018, mae gennych hawliau fel unigolyn, gan gynnwys yr hawliau canlynol:

- Yr hawl i **gywiro** – mae gennych yr hawl i ofyn i'ch gwybodaeth gael ei chywiro.
- Gall yr hawl i **gyfyngu** ar brosesu fod yn gymwys – gallwch ofyn i ni atal prosesu eich data personol, ond gallai hyn arwain at oedi neu ein hatal rhag cyflenwi gwasanaeth i chi. Byddwn ni'n ymdrechu i gydymffurfio â'ch cais ond efallai y bydd angen i ni gadw neu brosesu gwybodaeth i gydymffurfio â'n dyletswyddau cyfreithiol.
- Yr hawl i **wrthwynebu** – nid yw hyn yn hawl absoliwt a bydd yn dibynnu ar y rheswm dros brosesu eich gwybodaeth bersonol.
- Yr hawl i **ddileu** – gallwch ofyn i ni ddileu eich data personol, ond gallai hyn arwain at oedi neu ein hatal rhag darparu gwasanaeth neu barhau i ddarparu gwasanaeth. Byddwn ni'n ymdrechu i gydymffurfio â'ch cais ond efallai y bydd angen i ni gadw neu brosesu gwybodaeth i gydymffurfio â'n dyletswyddau cyfreithiol.
- Yr hawl i beidio â bod yn destun **gwneud penderfyniadau a phroffilio awtomataidd.**
- Yr hawl i gael **mynediad** – mae gennych yr hawl i ofyn i ni am gopïau o'ch data personol. I gyflwyno cais, cysylltwch â:

Mynediad at Gofnodion

Cyngor Sir Penfro

Neuadd y Sir

Hwlffordd

SA61 1TP

Cyfeiriad e-bost:accesstorecords@pembrokeshire.gov.uk Rhif ffôn: 01437 764551

Cwynion neu ymholiadau

Mae Cyngor Sir Benfro yn ceisio bodloni'r safonau uchaf posib wrth gasglu a defnyddio gwybodaeth bersonol. Am y rheswm hwn, rydym yn cymryd unrhyw gwynion rydym yn eu cael am hyn o ddifrif. Rydym yn annog pobl i roi gwybod i ni os ydynt o'r farn fod y ffordd yr ydym yn casglu gwybodaeth neu'n ei defnyddio yn annheg, yn gamarweiniol neu'n amhriodol.

Nid yw'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn rhoi manylion cynhwysfawr am bob agwedd ar ein gwaith o gasglu a defnyddio gwybodaeth bersonol. Fodd bynnag, rydym yn hapus i ddarparu unrhyw wybodaeth neu esboniad ychwanegol sydd eu hangen. Dylai unrhyw geisiadau am hyn gael eu hanfon at yr unigolyn yn y cyfeiriad isod:

Y Swyddog Diogelu Data

Cyngor Sir Penfro

Neuadd y Sir

Hwlffordd

SA61 1TP

Cyfeiriad e-bost: dataprotection@pembrokeshire.gov.uk

Rhif ffôn: 01437 764551

Os ydych am wneud cwyn am y ffordd rydym wedi prosesu eich gwybodaeth bersonol, gallwch gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth fel y corff statudol sy'n goruchwylio deddfwriaeth diogelu data:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth – Cymru

Yr Ail Lawr, Tŷ Churchill

Ffordd Churchill

Caerdydd

CF10 2HH

Cyfeiriad e-bost: wales@ico.org.uk

Ffôn: 0330 414 6421

Ein manylion cyswllt fel rheolydd data:

Cyngor Sir Penfro, Neuadd y Sir, Hwlffordd, Sir Benfro, SA61 1TP.

Rhif ffôn: 01437 764551 neu enquiries@pembrokeshire.gov.uk

Mae gwybodaeth ein Swyddog Diogelu Data wedi'i nodi uchod yn yr adran 'Cwynion ac ymholiadau'.

Newidiadau i'r hysbysiad preifatrwydd hwn: Rydym yn adolygu ein hysbysiad preifatrwydd yn rheolaidd.